

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau,
Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX
Bore Iau, 9 Mawrth, 2017 am 10.30

Dolen gyswllt: Hannah Williams (Ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 7 Mawrth 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cabinet yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/ly Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Chwefror, 2017 yn rhai cywir

3. ADRODDIAD ER GWYBODAETH – CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD – DIWEDDARIAD I ADRAN 3A

Er gwybodaeth, mae'r diweddariadau canlynol wedi'u gwneud i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd ([3A - Link](#))

- Adran 4.2 – Pwyllgor Cabinet - Elusen RhCT ar gyfer Pobl sydd â Nam ar eu Golwg

4. RHAGLEN WAITH Y CABINET:

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig ddiweddaraf o faterion sy'n rhan o Raglen Waith y Cabinet y mae angen eu trafod yn ystod Blwyddyn y Cyngor, 2016-17. Bydd y Rhaglen Waith yn llywio gweithgarwch canghennau eraill o'r Cyngor ynghyd â gwaith y Cabinet.

(Tudalennau 19 - 46)

5. ARGYMHELLION GWEITHGORAU CRAFFU

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am ganfyddiadau'r ddau Weithgor Craffu ynghyd â'u hargymhellion parthed materion yn ymwneud â'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Teithiol a Chartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon, Aberaman.

(Tudalennau 47 - 88)

6. GWERTHUSO PROSIECT ADFER LIDO PONTYPRIDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi'r wybodaeth am y prif ganfyddiadau a chasgliadau yr adroddiad gwerthuso allanol sydd wedi'i gynnal ynglŷn â gweithredu prosiect adfer Lido Ponty, ac i ddefnyddio'r rhain i gyfrannu at lwyddiant parhaus y Lido.

(Tudalennau 89 - 96)

7. HWYLUSO MATERION DATBLYGU TAI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â hynt y gwaith parthed prosiect Hwyluso ynghyd â rhoi caniatâd i swyddogion symud i'r camau nesaf yn y prosiect

(Tudalennau 97 - 108)

8. AILDDATBLYGU SAFLE HEN GANOLFAN SIOPA DYFFRYN TAF/TAFF VALE

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n nodi'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud yn y gwaith o ailddatblygu safle'r Hen Ganolfan Siopa.

(Tudalennau 109 - 118)

9. ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2015/16

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n cyflwyno i'r Cabinet yr wybodaeth ynglŷn ag Adroddiad Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2015/16.

(Tudalennau 119 - 170)

10. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - TREFNAU LLYWODRAETHU DA WRTH BENDERFYNU NEWIDIADAU SYLWEDDOL I WASANAETHAU

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn ag adroddiad diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru sydd ar fin cael ei ryddhau, ac i nodi'r camau i'w cymryd gan y Cyngor mewn ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u nodi ynddo.

(Tudalennau 171 - 186)

11. YMATEB Y CYNGOR, YNTAU'N GORFF CYHOEDDUS UNIGOL, I'R GOFYNION FEL SYDD WEDI'U NODI YN NEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ar gamau'r Cyngor yn gorff cyhoeddus unigol, i fynd i'r afael â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

(Tudalennau 187 - 192)

12. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: GWEITHREDU RHAGLEN AR GYFER GWASANAETH CADW'N IACH GARTREF CWM TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno i'r Cabinet y cytundeb cyfreithiol arfaethedig a'r atodlen ariannol ar gyfer Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref Cwm Taf (Gwasanaeth Asesu ac Ymateb Integredig gynt) i lywodraethu'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer y gwasanaeth ynghyd â cheisio cymeradwyaeth bod unrhyw newidiadau gofynnol nad ydyn nhw o natur hanfodol yn dilyn cyflwyno sylwadau gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn hwyr, yn cael eu dirprwyo i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet.

(Tudalennau 193 - 274)

13. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y TRYDYDD CHWARTER

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Cyngorwyr am gyflawniad y Cyngor dros naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon hyd at 31 Rhagfyr 2016, yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

(Tudalennau 275 - 290)

14. GWASANAETH ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - RHAGLEN GYFALAF ATODOL 2017/18

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes dros dro sy'n darparu manylion i Aelodau ynghylch gweithiau cyfalaf bychain i'w cymeradwyo ar gyfer 2017/18, fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf dair blynedd.

(Tudalennau 291 - 308)

15. RHAGLEN GYFALAF ATODOL 2017/18 AR GYFER Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n nodi'r rhaglen gyfalaf fanwl ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol ar gyfer 2017/18, yn ychwanegol at gymeradwyo Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd y Cyngor 2017/18 - 2019/20 ar 1 Mawrth 2017 (Cyngor) a chymeradwyo Cynllun Corfforaethol y Cyngor – Buddsoddi mewn Blaenoriaethau ar 30 Tachwedd 2016 (Cyngor).

(Tudalennau 309 - 330)

16. Y DIWEDDARAF AR Y CYNNYDD YNGHYLCH GRANT EIDDO GWAG Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n rhoi i Aelodau yr Hynt Hyd yn hyn mewn perthynas â grant eiddo gwag y Cyngor, a'r niferoedd sydd wedi manteisio arno.

(Tudalennau 331 - 336)

17. CYNLLUN COMISIYNU 'CYMORTH I'R BOBL' 2017-2018

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y Grant 'Cymorth i'r Bobl' dangosol 2017/18 ynghyd â gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Comisiynu Lleol ar gyfer Rhaglen 'Cymorth i'r Bobl' Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2017/18.

(Tudalennau 337 - 374)

18. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraffau 7, 8, a 9 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

19. COMISIYNU CYNLLUNIAU GOFAL YCHWANEGOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi trosolwg i'r Cabinet ar y gwaith caffael diweddar mewn perthynas â phenodi partneriaid ar gyfer dabltyg a chynnal cynlluniau Gofal Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf ac i roi gwybod i'r Cabinet pa ddarparwyr sydd wedi'u dewis.

(Tudalennau 375 - 384)

20. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y
Cynghorwyr: A. Morgan (Cadeirydd)
M. Webber (Is-gadeirydd)
R. Bevan
A. Crimmings
M. Forey
(Mrs) E. Hanagan
G. Hopkins
M. Norris
(Mrs) J. Rosser

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd